


# Os yw'r Gefnogaeth yn Gywir, Amdani!

## Mynd i'r afael â'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd


# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Map bwlch cyflogaeth | 4 |
| Am yr adroddiad hwn | 5 |
| Ein dull | 6 |
| Sut wnaethon ni ysgrifennu'r adroddiad hwn | 7 |
| Y Ddeddf Cydraddoldeb | 8 |
| Ein 7 argymhelliad | 9 |
| Cyngor a chefnogaeth | 17 |
| Fformatau eraill | 18 |







# Cyflwyniad


Mae’r **Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol** wedi bod yn dysgu am y **Bwlch Cyflogaeth Anabledd.**

Dyma’r gwahaniaeth rhwng:



- cyfradd cyflogaeth pobl sydd ddim yn anabl a...
- cyfradd cyflogaeth pobl sydd yn anabl

Er enghraifft, os yw **8 allan o 10** o bobl sydd ddim yn anabl yn gweithio, ac mae **5 allan o 10** o bobl anabl yn gweithio, y gwahaniaeth yw **3** o bobl. Felly, mae’r **bwlch** yn **30%**




**Rydym yn credu bod y bwlch yng Nghymru yn 31%.**

# Map Bwlch Cyflogaeth


Dyma fap o Gymru.

Mae'n dangos pob ardal awdurdod lleol.

Mae lliwiau tywyll yn dangos bylchau cyflogaeth mawr.

- **Powys** sydd â'r bwlch mwyaf.

- **Ynys Môn** sydd â'r bwlch lleiaf.



# Am yr adroddiad hwn




Hwn yw'r fersiwn Hawdd i'w Ddarllen o adroddiad sy'n llawer hirach.



Mae'n dweud wrthych am y **7 argymhelliad** yn yr adroddiad llawn.

Argymhelliad yw rhywbeth mae'r Pwyllgor yn ei gredu y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud i gau'r bwlch cyflogaeth.



Rydym yn credu y bydd yr argymhellion hyn yn helpu i fwy o bobl anabl weithio.

# Ein dull

Rydym yn credu:



- Bod pobl yn ‘anabl’ oherwydd cymdeithas. Er enghraifft, oherwydd agweddau pobl, diffyg hygyrchedd i adeiladau, neu ddiffyg cefnogaeth.




- Dylai Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl fod yn rhan o Gyfraith Cymru.



- Gall gwaith fod yn llesol i bobl. Er enghraifft, cael mwy o arian a gwneud ffrindiau.




- **Ni** ddylai pobl gael eu gorfodi i weithio. Rydym eisiau gwella pethau fel bod mwy o bobl yn gallu gweithio, os ydynt yn gallu gwneud hynny.

# Sut wnaethon ni ysgrifennu'r adroddiad hwn

Fe wnaeth y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wrando ar:



- bobl anabl
- elusennau
- pobl sy'n ysgrifennu polisïau
- ymgyrchwyr
- prifysgolion
- staff cymorth



# Y Ddeddf Cydraddoldeb




Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn dweud bod rhaid i gyflogwyr wneud **addasiadau rhesymol** i helpu pobl weithio.




**Addasiadau Rhesymol** yw pethau y gall cyflogwyr eu gwneud i wneud gwaith yn bosibl i bobl anabl.

Er enghraifft: rampiau, meddalwedd cyfrifiadur arbennig ac oriau gwaith hyblyg.



- Mae **1 o bob 4** o bobl anabl yn dweud nad yw eu cyflogwyr wedi gwneud addasiadau rhesymol.
- Roedd **1 o bob 5** cyflogwr yn anfodlon gwneud addasiadau ar gyfer pobl ag amhariad ar eu golwg.

# Ein hargymhellion

Mae ein 7 argymhelliad am :



**1. Cefnogaeth i weithio**

**2. Busnes Cymru**



**3. Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl**

**4. Cynllun Hyderus o ran Anabledd**



**5. Sefydliadau sector cyhoeddus**

**6. Cynlluniau cymorth hyblyg**



**7. Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar Sail Anabledd**

# Argymhelliad 1



**Dylai pobl sydd yn gallu gweithio, ac sydd eisiau gweithio, gael y cymorth maent ei angen.**

Dylai Llywodraeth Cymru:




- gorffen gwaith y Tasglu Hawliau Anabledd erbyn Mai 2025

- defnyddio'r adroddiad Drws ar Glo i newid polisïau erbyn Mai 2025



- cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Hawliau Pobl Anabl erbyn Mai 2025

- rhoi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl yng nghyfraith Cymru erbyn Ebrill 2026



# Argymhelliad 2:

**Nid yw pobl anabl yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt a'r hawliau y maent yn eu haeddu.**

Edrych ar sut mae **Busnes Cymru** yn cefnogi busnesau i gyflogi mwy o bobl anabl.




Dylai Llywodraeth Cymru adolygu

- y cyngor a'r arweiniad sydd ar gael



- sut mae cyngor yn cael ei rannu â chyflogwyr

- sut mae busnesau yn cael cymorth




Dylai'r adolygiad gael ei orffen erbyn **Gorffennaf 2025**.

# Argymhelliad 3:



**A yw'r Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl yn helpu pobl gael gwaith?**



Dylai Llywodraeth Cymru osod targedau i fesur y cynnydd mae'r Hyrwyddwyr yn ei wneud. Er enghraifft:

- pa mor aml maent yn siarad â chyflogwyr



- faint o bobl sy'n cael swyddi oherwydd gwaith yr Hyrwyddwyr

- newidiadau i'r ffyrdd mae cyflogwyr yn cyflogi a chadw staff




Dylai hyn gael ei wneud erbyn Gorffennaf 2025. **Mesur cynnydd bob blwyddyn.**

# Argymhelliad 4:

**Gwella'r cynllun Hyderus o ran Anabledd.**

Dylai Llywodraeth Cymru ddod o hyd i ffyrdd i:



- wneud y cynllun yn fwy effeithiol
- helpu pobl i ymddiried yn y cynllun



Os nad yw'n gallu cael ei wella, meddwl am greu cynllun newydd i Gymru.

Rhaid iddo gael ei barchu gan gyflogwyr a gweithwyr.




Dweud wrthym beth sydd wedi digwydd erbyn **Rhagfyr 2025**.

# Argymhelliad 5:



**Mae'r llywodraeth, cynghorau a sefydliadau'r GIG yn gyflogwyr. Gallant wneud mwy i gau'r Bwlch Cyflogaeth Anabledd.**

Dylai Llywodraeth Cymru wneud yn siŵr bod y sefydliadau hyn:




- wedi diweddaru eu polisïau i gyd-fynd â'r Cynllun Gweithredu Anabledd newydd
- yn anelu at ddod yn Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd
- wedi gwneud cynlluniau i gau eu bwlch cyflogaeth anabledd




Dylai hyn gael ei wneud erbyn diwedd 2025.

# Argymhelliad 6:



**Gall cynlluniau sydd i fod i helpu pobl anabl fod yn anhyblyg. Mae pobl yn colli cyfleoedd i weithio.**

Dylai Llywodraeth Cymru:



- wneud rhaglenni cymorth yn fwy hyblyg

- codi'r terfyn oedran ar gyfer cynlluniau fel Twf Swyddi Cymru+



Bydd hyn yn helpu pobl ifanc anabl i gael cymorth pan fydd ei angen arnynt.

## Argymhelliad 7:




**Mae'r Unedau Gwahaniaethu ar sail Anabledd yn casglu gwybodaeth am anabledd. Mae hyn yn bwysig ar gyfer ysgrifennu polisïau.**

Dylai Llywodraeth Cymru:




- gwneud yn siŵr bod yr Uned Tystiolaeth Gwahaniaethau ar sail Anabledd yn gweithio gyda sefydliadau hawliau anabledd



- cael gwybod am unrhyw broblemau neu fylchau yn y wybodaeth y mae'r uned yn ei chasglu




- dweud wrthym am y gwaith a fydd yn cael ei wneud, erbyn Mai 2025.

# Cyngor a chefnogaeth

Dyma ddolen i fwy o wybodaeth am gefnogaeth i bobl anabl:




https://ymchwil.senedd.cymru/erthyglau-ymchwil/cymorth-i-bobl-anabl-canllaw-i-etholwyr/



Mae dolen i **Ganllaw Etholaethol**. Mae ganddo wybodaeth am:

- cymorth gwaith




- cyngor ariannol
- sefydliadau sy’n gallu helpu

# Fformatau eraill



Gallwch gael yr adroddiad hwn mewn fformatau eraill:




- adroddiad llawn
- braille
- print bras
- sain

I ofyn am fformat arall, cysylltwch â ni:



**Post:**

Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru

Bae Caerdydd

CF99 1SN




**Ffôn:** 0300 200 6565

**E-bost:** SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru




[https://senedd.cymru](https://senedd.cymru)

Senedd Cymru
Welsh Parliament